Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm: Canfyddiadau cychwynnol.

Isod mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor yn adroddiad mis Ebrill 2025: Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm: Canfyddiadau cychwynnol.

# Cynnwys

**1. Argymhellion**............................. Error! Bookmark not defined.

**2. Casgliadau**
..............................................................................**1**Error! Bookmark not defined.

# 1. Argymhellion

Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r gwersi a ddysgwyd o gau’r porthladd a chyhoeddi’r canfyddiadau. Dylai hyn gynnwys gwersi o’r ymateb acíwt i’r cyfnod cau, ond hefyd unrhyw wersi trosfwaol o'r digwyddiad parhaus.

Ymateb: Gwrthod

1. Yn gyntaf, rydyn ni’n ail-bwysleisio bod y porthladdoedd sy’n delio â thraffig Môr Iwerddon yng Nghymru yn endidau masnachol, sydd naill ai’n eiddo preifat ac yn cael eu gweithredu’n breifat, neu’n gweithredu ar sail Ymddiriedolaeth.

2. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni gwaith y Tasglu ar gydnerthedd y cysylltedd môr rhwng Cymru ac Iwerddon yn dilyn cau Porthladd Caergybi dros dro.

3. Bydd ail gyfarfod y Tasglu’n canolbwyntio ar gynlluniau wrth gefn. Bydd y gwersi a nodir yn rhan hollbwysig o’r drafodaeth yn y cyfarfod hwn a bydd pob aelod yn cael cyfle i ystyried y cyfraniad mae’n gallu ei wneud os bydd unrhyw borthladd yn cau yn y dyfodol, a sut gallwn gydweithio i leihau effaith hynny.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r digwyddiad fod wedi'i reoli'n well pe bai’r Ysgrifennydd Cabinet penodol yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru. Mewn unrhyw ddigwyddiadau o’r raddfa neu’r cymhlethdod hwn yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar arweinydd Gweinidogol a fydd yn goruchwylio ac yn atebol am reoli’r ymateb.

Ymateb: Gwrthod

4. Gan gydnabod bod modd gwella’r trefniadau ymateb i ddigwyddiad bob amser, rydyn ni’n gwrthod yr honiad na chafodd y digwyddiad hwn ei reoli’n dda. Mae’r canlyniad yn dweud y cyfan.

5. Drwy arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon, a chydweithredu effeithiol rhwng rhanddeiliaid y sector, roedd modd i bobl a nwyddau groesi Môr Iwerddon cyn gwyliau’r Nadolig. Rydyn ni’n credu’n gryf bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi elwa ar allu ac arbenigedd sector y ddau Ysgrifennydd Cabinet.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 3

Mae’r Aelodau'n teimlo nad oes ganddynt ddarlun clir o hyd o sut y datblygodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r digwyddiad a chau’r porthladd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen o gamau mewnol a gymerodd mewn ymateb i’r cyfnod cau o’r gwrthdrawiad cyntaf ar 6 Rhagfyr 2024. Dylai hyn gynnwys camau a gymerwyd i gael y data masnach diweddaraf gan CThEF.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

6. O 6 Rhagfyr 2025 ymlaen, defnyddiwyd trefniadau Argyfwng Sifil Posibl Llywodraeth Cymru i ddelio â chau Porthladd Caergybi, fel rhan o’r ymateb ehangach i Storm Darragh. Mae gweithdrefnau ac arferion timau Argyfwng Sifil Posibl wedi hen ennill eu plwyf, a chawsant eu defnyddio fel rhan o’r ymateb hwn. Roedd adroddiadau sefyllfa, a oedd yn cofnodi pob diweddariad, yn cael eu cynhyrchu bob dydd.

7. Roedd Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ochr yn ochr â Chyngor Sir Ynys Môn, wedi gweithredu eu trefniadau pentyrru ar gyfer cau porthladdoedd, sydd hefyd wedi hen ennill eu plwyf.

8. Ar 7 Rhagfyr, roedd yr adroddiad sefyllfa yn cadarnhau y byddai Porthladd Caergybi ar gau tan ddydd Llun 9 Rhagfyr ar y cynharaf o ganlyniad i’r difrod strwythurol yn y porthladd.

9. Ar 11 Rhagfyr, dywedodd e-bost gan y Rheolwr Gweithrediadau yn Stena Line Ports, bod yr arolygiadau deifio “wedi bod yn galonogol……..a’u bod yn hyderus iawn y byddai modd ailagor ar 12 Rhagfyr.”

10. Ar 12 Rhagfyr, nododd e-bost gan Stena Line Ports fod angen gwneud arolygiadau pellach ac y byddent yn aros 24 arall cyn ailagor. Hefyd, dywedodd Stena Line Ports eu bod yn cysylltu â chwsmeriaid cludo nwyddau a’u bod yn rhedeg gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun a Birkenhead. Eto, roedd y ddau weithredwr llongau yn dal yn cymryd

archebion ar gyfer teithiau yn y dyfodol. Ar 12 Rhagfyr, oherwydd y sefyllfa a oedd yn datblygu o ran traffig cerbydau nwyddau trwm sylweddol ar Ynys Môn, awgrymodd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gryf y byddai'n fwy priodol i weithredwr y porthladd gyfathrebu i ddweud y byddai'r porthladd ar gau nes y cyhoeddir yn wahanol, er mwyn osgoi problemau lles posibl i'r rhai sy'n teithio i'r ardal.

11. Yn hwyr y prynhawn ar 12 Rhagfyr, cafodd CSTNW gyfarfod â Stena Line Ports a Chyngor Sir Ynys Môn i drafod y ffaith fod y porthladd yn dal ar gau, a'r camau roedd Stena Line Ports yn eu cymryd i ailgychwyn gwasanaethau. Dywedodd Awdurdod y Porthladd wrth Ysgrifennydd y Cabinet ac Arweinydd yr Awdurdod Lleol y byddai'r porthladd ar gau tan 19 Rhagfyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig cefnogi Awdurdod y Porthladd, ond cafodd y cynnig ei wrthod.

12. Ar 12 Rhagfyr, nid oedd cau Porthladd Caergybi yn cael ei ystyried yn fater argyfwng sifil posibl mwyach wrth i gerbydau nwyddau trwm ddechrau symud i borthladdoedd eraill, gan leihau'r effeithiau uniongyrchol ar Ynys Môn ond cynyddu'r pwysau mewn mannau eraill (Birkenhead a Cairnryan). Yn Llywodraeth Cymru, cafodd y mater ei symud i gylch gwaith yr Is-adrannau Trafnidiaeth.

13. Ar 14 Rhagfyr, cafodd Datganiad Ysgrifenedig ei gyhoeddi: Datganiad Ysgrifenedig: Cau Porthladd Caergybi (14 Rhagfyr 2024).

14. Ar ddydd Sul 15 Rhagfyr, cafodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gyfarfod â Gweinidogion Iwerddon i drafod y sefyllfa ym mhorthladd Caergybi ac i nodi camau gweithredu i liniaru effeithiau cau'r porthladd dros dro. Bryd hynny, ar sail y wybodaeth gan Awdurdod y Porthladd ei hun, roedd disgwyl i'r cyfnod cau bara tan 19 Rhagfyr. Ar 17 Rhagfyr, trefnodd Stena Line Ports gyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Iwerddon, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Wrth ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei sefyllfa ar 12 Rhagfyr, cadarnhaodd Awdurdod y Porthladd y byddai Porthladd Caergybi ar gau tan 15

Ionawr ar y cynharaf. Rhoddodd Stena Line Ports wybod i'r ddwy lywodraeth ar yr un pryd ag y rhoddodd wybod i'r sector ac i'r cyhoedd drwy ddatganiad i'r wasg. Diwrnod hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyd-hysbysiad â Llywodraeth Iwerddon: Cyd-hysbysiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon – Porthladd Caergybi (17 Rhagfyr 2024)

15. Roedd Swyddogion o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn gweithio ar wahanol agweddau ar y sefyllfa. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adroddiadau sefyllfa dyddiol gyda mewnbwn Swyddfa Dulyn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, Stena Line Ports, Stena Line Ferries, Irish Ferries, porthladdoedd ar draws Cymru a Lerpwl, llywodraeth leol a chwmnïau cludo nwyddau.

16. Roedden ni wedi cymryd camau i nodi, hwyluso a sicrhau capasiti uwch ym mhorthladdoedd Cymru, gan annog porthladdoedd a gweithredwyr i ychwanegu llwybrau eraill, wedi nodi a rheoli problemau pentyrru posibl mewn porthladdoedd lle roedd y capasiti'n cael ei gynyddu, ac wedi monitro niferoedd dyddiol yr holl nwyddau a theithwyr a oedd yn croesi yn erbyn y capasiti.

17. Roedden ni wedi sicrhau bod darpariaeth trafnidiaeth amgen ar gael, fel lleoedd ychwanegol ar drenau a gwasanaethau bws i alluogi teithwyr i gyrraedd porthladdoedd eraill.

18. Roedden ni wedi canolbwyntio ar gyfathrebu â'r cyhoedd drwy amrywiaeth o ddatganiadau ysgrifenedig a diweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â siarad yn uniongyrchol â chwmnïau cyfryngau. Roedd hyn yn ategu'r diweddariadau uniongyrchol gan Awdurdod y Porthladd a gweithredwyr llongau.

19. Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddon ni Ddatganiad Ysgrifenedig i nodi'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud: Datganiad Ysgrifenedig:Diweddariad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cau porthladd Caergybi dros dro (19 Rhagfyr 2024).

20. Roedd y gwaith wedi parhau drwy gydol y Nadolig. Roedd swyddogion yn cael cyfarfodydd â rhanddeiliaid bob dydd bron.

21. Ar 7 Ionawr 2025, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ddatganiad yn ystod y Cyfarfod Llawn, a chymerodd ran mewn trafodaeth lawn ar gau'r porthladd: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Porthladd Caergybi (7 Ionawr 2025) – Eitem 5.

22. Roedd swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd â Stena Line Ports i gadarnhau 16 Ionawr fel y dyddiad ailagor ac i sicrhau cysondeb yn y cyfathrebiadau ynghylch ailagor y porthladd.

23. Ar 16 Ionawr, cyhoeddon ni Ddatganiad Ysgrifenedig yn dilyn ailagor Porthladd Caergybi: Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Llywodraeth Cymru yn dilyn Ailagor Porthladd Caergybi (16 Ionawr 2025)

Goblygiadau ariannol: dim

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ar fyrder pa gymorth ariannol a chymorth arall y bydd yn ei roi i fusnesau lleol yr effeithir arnynt gan y cyfnod cau, a chyfleu'n gyhoeddus y rhesymau dros ei phenderfyniad.

Ymateb: Gwrthod

24. Rydyn ni'n tynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar borthladd Caergybi: mae'n borthladd sy'n eiddo preifat ac sy'n cael ei weithredu'n breifat. Felly, nid Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y seilwaith a fethodd.

25. Er yr uchod, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi bod yn gyson barod i roi cymorth i fusnesau y mae cau'r porthladd wedi effeithio arnynt, yn amodol ar drafod a chadarnhau'r gofynion gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agwedd a fabwysiadwyd pan oedd rhaid cau Pont Menai ar frys ym mis Hydref 2022, a oedd wedi effeithio ar fusnesau ym Mhorthaethwy a'r cyffiniau.

26. O ran yr amserlen, ar 20 Rhagfyr cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru a'u swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar y dull ar y cyd canlynol o asesu a deall effaith cau'r porthladd ar fusnesau:

- bod y Cyngor a Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos;
- ein bod yn dysgu o'n profiadau (gwersi a ddysgwyd) o gau Pont Menai i gasglu gwybodaeth gan fusnesau lleol (Caergybi a'r Ynys);
- bydd porth ar-lein yn cael ei lansio cyn bo hir ym mis Ionawr i rannu tystiolaeth o effaith cau'r porthladd;
- rydyn ni'n awyddus i gofnodi'r effeithiau ar yr economi, ar gyflogaeth, ar y gadwyn gyflenwi, ac ar gymunedau;
- Roedd Busnes Cymru'n barod i ymateb i ymholiadau busnes fesul achos.

27. Cafodd Cau Porthladd Caergybi: Adroddiad Cryno ar Ganlyniadau'r Arolwg Effaith ei gyflwyno i ni gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 14 Chwefror. Cafodd y gwaith hwn ei wneud ochr yn ochr ag astudiaeth achos, wedi'i hariannu gan Raglen Trefi Smart Llywodraeth Cymru. Roedd 'Astudiaeth Achos Trefni Smart Cymru' wedi mesur effaith cau'r porthladd ar Stryd Fawr Caergybi rhwng 6 Rhagfyr 2024 a 15 Ionawr 2025.

28. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol â'r Prif Weithredwr ar 19 Chwefror i ystyried canfyddiadau'r adroddiadau a'r ymatebion posibl. Dilynwyd hyn gan e-bost ar 21 Chwefror yn cadarnhau'r potensial i ddatblygu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau ac yn gwahodd amserlen fras, a gan e-bost dilynol ar 5 Mawrth yn amlinellu dau opsiwn posibl o ran ardrethi annomestig i'r awdurdod lleol eu hystyried, a allai ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau oedd wedi teimlo'r effaith.

29. Ysgrifennodd Cyngor Sir Ynys Môn at Lywodraeth Cymru ar 10 Ebrill yn amlinellu'n ffurfiol ei becyn arfaethedig o gymorth i fusnesau. Mae'r arfarniad cychwynnol o'r ystod eang o weithgareddau yn awgrymu y byddent yn helpu i ateb yr heriau sy'n bygwth bywiogrwydd canol tref Caergybi a'r economi ymwelwyr ehangach. Ar y sail honno, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol a bydd yn gweithio'n gyflym gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu a chytuno ar gyllid er mwyn gallu cymryd y camau hyn mor gyflym â phosibl.

Goblygiadau Ariannol: wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm y Pwyllgor, a chyflwyno'r strategaeth porthladdoedd a morol a'r cynllun cludo nwyddau fel mater o frys unwaith y bydd y tasglu wedi cwblhau ei waith.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

30. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflymu gwaith ar y Strategaeth Logisteg a Chludo Nwyddau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith y Tasglu.

31. Bydd lles gyrwyr a pharcio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth. Byddwn hefyd yn dysgu o'r hyn mae pobl eraill yn ei wneud yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro gwaith Tasglu Môr Iwerddon. I gynorthwyo gyda hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi manylion llawn ei chylch gorchwyl, aelodaeth a thasgau, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Tasglu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Dylai amcanion Tasglu Môr Iwerddon gynnwys:

- Deall y ffactorau a achosodd y digwyddiadau yng Nghaergybi i ddeall a oes unrhyw oblygiadau i'r sector porthladdoedd ehangach neu bolisïau porthladdoedd;
- Sicrhau diogelwch y porthladd yn y dyfodol;
- Gwella cyfleusterau i yrwyr yng Nghaergybi/ar y ffordd i Gaergybi;
- Asesu gwydnwch y cysylltiadau trafnidiaeth i Gaergybi, a'u gwella, gan gynnwys ystyried cysylltiadau rheilffordd;
- Cefnogi hyfywedd hirdymor y porthladd ac osgoi dargyfeirio masnach;
- Sicrhau bod cynllun wrth gefn cryf ar gyfer unrhyw gyfnodau cau yng Nghaergybi yn y dyfodol, a phorthladdoedd yng Nghymru yn gyffredinol. Dylai hyn gynnwys rheoli traffig, cyfathrebu, gweithredu llwybrau morol amgen a chymorth i fusnesau lleol.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

32. Mae Cylch Gorchwyl y Tasglu yn nodi ar ba brif feysydd y bydd yn canolbwyntio. Mae’r Cylch Gorchwyl ar gael yma: Tasglu ar y cysylltiad môr rhwng Cymru ac Iwerddon: cylch gorchwyl | LLYW.CYMRU

33. Yn ystod cyfarfod cyntaf y Tasglu, cytunodd yr aelodau y byddai cyfarfodydd y Tasglu yn y dyfodol yn cynnwys: cynllunio wrth gefn; cyfarfod sy’n canolbwyntio ar Gaergybi; cyfarfod ynghylch llwybrau deheuol yn benodol; a datblygu porthladdoedd yn y dyfodol. Bydd cyfarfod terfynol yn adolygu pob sesiwn thematig a bydd aelodau o’r Tasglu’n cytuno ar gamau gweithredu allweddol. Bydd y cynnydd yn erbyn y camau hyn yn cael ei fonitro, gydag ymrwymiad i adolygu ar ôl 6 mis.

34. Bydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn ogystal ag aelodau eraill o'r Grŵp Cyswllt, drwy nodyn yn dilyn pob cyfarfod.

35. Gan fod Porthladd Caergybi yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat, mater i Stena Line Ports yw diogelwch y porthladd a'i hyfywedd hirdymor.

36. Mae diogelwch porthladdoedd a morol yn fater wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU.  Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 6 Mawrth, rydyn ni wedi cyflwyno gwybodaeth bellach am reoleiddio porthladdoedd i'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: dim

# 2. Casgliadau

Casgliad 1

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogol yn aneglur i'r Pwyllgor ac i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r ymdrechion ymateb ac adfer. Cred yr Aelodau y gallai'r dryswch hwn fod wedi gwaethygu problemau gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng hwn.

Ymateb:

37. Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hymateb i Argymhelliad 2, gan gydnabod bod modd gwella'r trefniadau ymateb i ddigwyddiad bob amser, rydyn ni'n gwrthod yr honiad na chafodd y digwyddiad hwn ei reoli'n dda.

38. Cafodd y Pwyllgor esboniad o atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogion. I ddechrau, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru arweiniodd yr ymateb i gau Porthladd Caergybi, gan ei fod yn fater a oedd yn ymwneud â gogledd Cymru yn y lle cyntaf. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi defnyddio eu harbenigedd priodol i lywio ymateb Llywodraeth Cymru.

39. Mae ymateb i ddigwyddiad o'r fath yn elwa ar arbenigedd cyfunol pawb sy'n rhan o'r gwaith.

Casgliad 2

Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi gan y diffyg cyflymder a brys ymddangosiadol yn ymateb Llywodraeth Cymru i gau porthladd fferi prysuraf Cymru ar hyd llwybr masnach Ewropeaidd hollbwysig. Prin yw’r dystiolaeth a welodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i’r afael yn ddigonol â’r cyfnod cau yn ystod y tri mis diwethaf. Cred yr Aelodau mai gweithredu ar lefel leol a chydweithredu rhwng porthladdoedd a rwystrodd cyfnod cau Caergybi rhag bod yn wir drychineb i fasnach Cymru a'r economi.

Ymateb:

40. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, mae Porthladd Caergybi yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli’n breifat.

41. Yn ystod y cyfnod pan oedd y porthladd ar gau, casglodd Llywodraeth Cymru grŵp o swyddogion ynghyd i gydlynu ymateb strwythuredig er mwyn hwyluso cyfarfodydd rhwng y Llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfathrebiadau clir a rheolaidd drwy Ddatganiadau Ysgrifenedig a Hysbysiadau i’r Wasg.

42. Roedden ni wedi gweithio gydag adrannau o Lywodraeth y DU i gynyddu’r capasiti o ran teithwyr a nwyddau drwy gael caniatâd ar gyfer teithiau ychwanegol o Ddulyn drwy Abergwaun a Doc Penfro, yn ogystal â chapasiti cludo nwyddau ychwanegol drwy borthladdoedd yn Lloegr. Ar y cyd â’r Adran Drafnidiaeth, roedden ni wedi llacio, ar sail gyfyngedig a dros dro, y broses o orfodi’r rheolau i yrwyr cerbydau yr effeithiwyd arnynt drwy gau Porthladd Caergybi, a oedd wedi achosi ciwiau ac oedi mewn porthladdoedd cyfagos. Yn ogystal â hynny, gan weithio gyda’n partneriaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Sir Benfro, Trafnidiaeth Cymru a’n tîm Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, roedden ni wedi sicrhau y byddai cysylltiadau ffordd, rheilffordd a bws i’r gwasanaethau newydd hyn yn gweithredu’n ddidrafferth, a bod y capasiti’n ddigonol ar gyfer y gwyliau, a bod darpariaethau addas ar gyfer parcio ceir a cherbydau nwyddau trwm ar draws Sir Benfro.

43. Ers cau'r porthladd, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r diwydiant drwy sefydlu Tasglu Môr Iwerddon. Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn pob cyfarfod.

44. Mae'n siomedig nad yw adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod ymateb ac ymdrechion Llywodraeth Cymru a hefyd Llywodraeth Iwerddon yn casglu partneriaid a phartïon ynghyd i liniaru effeithiau cau Porthladd Caergybi ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

45. Rydyn ni'n credu yn yr egwyddor o sybsidiaredd mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Dylid rheoli digwyddiadau ar lefel mor lleol â phosibl, a bod haenau uwch llywodraeth yn ymyrryd dim ond yn ôl y gofyn/yr angen. Rydyn ni'n disgwyl i borthladdoedd a rhanddeiliaid lleol arwain y gwaith o reoli digwyddiadau o'r fath, gan sicrhau bod y Llywodraeth yn cael diweddariadau dibynadwy a phrydlon, a bod llywodraeth ganolog yn ymyrryd i sicrhau cyd-drefniant cenedlaethol a rhyngwladol. Rydyn ni hefyd yn atgoffa'r Pwyllgor mai endidau masnachol yw'r porthladdoedd hyn.

Casgliad 3

Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod y gwaith a wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi darlun clir o sut yr effeithiodd y cyfnod cau ar fusnesau, mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch y diffyg dealltwriaeth o’r effaith a gafwyd ar y gweithlu. Er enghraifft, hoffai’r Pwyllgor gael darlun cliriach o effeithiau colli swyddi ac oriau gwaith ar aelwydydd. Ar gyfer hyn, ac unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall weithio gyda phartneriaid i ddeall yn uniongyrchol yr effaith ar weithwyr, yn ogystal â busnesau.

Ymateb:

46. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, roedd Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru a’u swyddogion yn cysylltu’n rheolaidd â’u swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. O ran yr effaith ar fusnesau, cafodd hyn ei archwilio drwy Dîm Datblygu Economaidd y Cyngor a’r dull a nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 4 uchod, gan barchu’r egwyddor o sybsidiaredd ac mai’r Cyngor oedd yn y sefyllfa orau i gael manylion am yr effeithiau economaidd lleol.

47. Er bod y dull y cytunwyd arno gyda’r Cyngor yn nodi y byddem yn mynd ati i “gofnodi’r effeithiau ar yr economi, ar gyflogaeth, ar y gadwyn gyflenwi, ac ar gymunedau”, rydyn ni’n cydnabod bod bwlch yn y data yn hyn o beth. Hefyd, mae’n anodd cael dealltwriaeth gywir o’r effeithiau gan fod yr arolwg yn rhedeg am wythnos pan oedd y porthladd ar gau ac am bythefnos ar ôl i’r porthladd ailagor. Efallai fod yr ymatebwyr cychwynnol wedi seilio eu hatebion ar y dybiaeth y byddai llai o deithiau bob dydd, ond pan ailagorwyd y porthladd, roedd nifer y teithiau yn dal yr un peth o un lanfa, ond gydag amserlen ddiwygiedig a allai fod wedi effeithio ar fasnach leol.

48. Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o’n gwaith parhaus gyda Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol eraill, yn ogystal â chyfarfod y Tasglu a fydd yn canolbwyntio ar Gaergybi.

Casgliad 4

Amlinellodd y Pwyllgor bryderon ynghylch dargyfeiriadau masnach yn ei adroddiad, Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i sicrhau bod Caergybi yn parhau i fod yn ddewis deniadol i osgoi dargyfeiriadau masnach.

Ymateb:

49. Ers Brexit, mae'r traffig llongau uniongyrchol rhwng Rosslare a'r cyfandir wedi cynyddu'n sylweddol, gan osgoi llwybr y "bont dir" ar draws Cymru a Lloegr. Roedd hyn yn anochel o ganlyniad i greu dwy drefn reoleiddio ar gyfer bwyd, anifeiliaid a phlanhigion, pan mai un drefn oedd yn wreiddiol. Mae Gweinidogion Cymru'n cefnogi trafodaethau Llywodraeth y DU gyda'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n anelu at sicrhau cytundeb newydd a allai ddisodli'r angen am reolaethau Model Gweithredu Targed y Ffin, sydd eisoes ar waith ar arfordiroedd de a dwyrain Lloegr.

50. Mae Gweinidogion Cymru'n dal yn trafod â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod y broses o weithredu Model Gweithredu Targed y Ffin mewn porthladdoedd sy'n wynebu Iwerddon yn cael ei gwneud mewn ffordd sy'n trin pob porthladd yn yr un modd, yn cyfrannu'n effeithiol at iechyd pobl, planhigion ac anifeiliaid ledled Prydain Fawr, ac yn lleihau'r costau a'r risg o oedi i fusnesau. Mae hyn oll yn hanfodol er mwyn cynnal cystadleurwydd porthladdoedd Cymru. Bydd cyhoeddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei wneud yn ystod yr haf, yn amodol ar gytundeb â gweinyddiaethau eraill.

Casgliad 5

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi diffyg sylw i borthladdoedd a chludo nwyddau yn ystod y Senedd hon. Mae'r Aelodau o’r farn, pe bai mwy o ymgysylltu wedi bod â'r sectorau porthladdoedd a chludo nwyddau, a phe bai’r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, wedi'u gweithredu, y byddai Llywodraeth Cymru wedi bod mewn sefyllfa well i ymateb i'r argyfwng hwn. Rydym o’r farn bod yr oedi i’r strategaeth porthladdoedd a morol a’r cynllun cludo nwyddau yn dangos y gallai diffyg ymgysylltu â’r sectorau hyn fod wedi rhoi Llywodraeth Cymru dan anfantais.

Ymateb:

51. Mae Llywodraeth Cymru’n ymwybodol o bwysigrwydd y sectorau Porthladdoedd a Chludo Nwyddau i economi Cymru, ac wedi cydnabod hyn yn llawn.

52. Rydyn ni’n cael cyfarfodydd rheolaidd â’r sectorau hyn ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth gan swyddogion ac Ysgrifenyddion Cabinet ar draws amrywiaeth o brosiectau, a gofynion busnes fel arfer. Mae ein gwaith maes, ein hymweliadau safle, ein presenoldeb mewn digwyddiadau ffurfiol a’n hymrwymiad clir i sefydlu’r Tasglu yn dangos yn glir y sylw rydyn ni’n ei roi i’r sectorau hyn.

53. Pan oedd Porthladd Caergybi ar gau, roedden ni’n trafod yn barhaus â’n porthladdoedd ac er y byddem yn gallu gwella ein ffordd o drafod â rhai sectorau, nid ydym yn credu y byddai hyn wedi golygu ein bod mewn gwell sefyllfa i ymateb. Rydyn ni’n parhau i wneud gwaith maes cadarnhaol â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynllun porthladdoedd a strategaeth cludo nwyddau yn y dyfodol.